# Llais yr Andes

Cylchlythyr Dosbarthiadau Cymraeg

Rhif 13 Esquel a Threvelin Gorffennaf 2003

**Annwyl Pawb,**

Wel, mae hi bron yn flwyddyn ers imi hedfan yma, am chwe mis fel o'n i'n meddwl, fel Athrawes Olaf ond, diolch i'r drefn, ac i Arian y Cynulliad mae r Project Cymraeg yn saff am dair blynedd arall. Ond yn ol Robert Owen Jones bydd gwaith yr athrawon o Gymru yn newid, a byddwn yn

- paratoi ar gyfer tiwtoriad lleol, gan wneud yn siwr bod digon o ddefnyddiau addas ag arwain a hyfforddi tiwtoriaid i gymryd drosodd.
- Dysgu Dosbarthiadau o Safon Uwch a Gloywi yn unig

Dwi'n falch bod hyn wedi dechrau eisioes yn Esquel a Threvelin a bod Gladys, Romina, Silvina, Federico, Silvia, Norma a Mary wedi gweithio'n galed efo'r Ysgol Feithrin, Plant, Arddegau , a Dysgwyr Newydd ag Uwch. Hefyd mae Margarita ag Alan wedi bod yn helpu yn Lago Puelo.

Dwi'n gobeithio y gwnan nhw ddod at ei gilydd i rannu syniadau a chydweithio a dal ati i wella eu Cymraeg hefyd.

Ond mae rhaid cael disgyblion a dysgwyr yn y dosbarthiadau i Ysgol Gymraeg yr Andes ffynnu – ac os gwel Robert Owen Jones bod y niferoedd yn mynd i lawr, bydd yn ail-ystyried rhoi Athro o Gymru yma drwy'r amser. Felly , dewch i wella eich Iaith, i ymarfer sgwrsio a sgrifennu, i baratoi ar gyfer yr Eisteddfodau, i gymdeithasu, a dwedwch wrth rai eraill. Dyma sgrifennodd Alan Hughes mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod y Wladfa:

*Mae hi'n BWYSIG dysgu Cymraeg achos os bydd NEB yn mynd i'r dosbarth,*
*BYDD NEB yn gwrando*
*yn sgwrsio*
*yn darllen*
*yn sgrifennu*
*yn cymdeithasu ;*
*Bydd DIM CYMRAEG................OND SBAENEG!*
*Mi fydda i'n drist wedyn!*
*Mae hi'n bwysig gwneud BOPETH yn Gymraeg!*
*Gwrandewch ar y radio ac ar storiau Cymraeg! Helpiwch i gadw'r radio, teledu ac Ysgol Feithrin!*
*Siaradwch efo pobl sy'n siarad yr iaith neu ymwelwyr o Gymru!*
*Prynwch neu fenthyciwch lyfrau, papurau a chylchgronnau Cymraeg ;*
*Darllenwch nhw!*
*Sgrifennwch at ffrindiau sy'n dallt yr iaith!*
*Anfonwch e-bost a chardiau yn aml.!*
*Ewch i bethau Cymraeg.!*

*Dw i'n cael hwyl efo Cymraeg. Dach chi?*

Nesta Davies

## YMWELWYR

Dydd Sadwrn 19fed Hydref cyrhaeddodd grwp o Aelwyd Llanuwchllyn, efo Non Lloyd Roberts oedd wedi bod yn helpu yn yr Ysgol Feithrin flwyddyn dwaetha. Roedd llawer o bobl ifanc efo hi mewn Cor oedd yn cystadlu yn Eisteddfod Trelew.
Roedd Swper Croeso yn y Ganolfan, ac roedd pawb wedi dod a bwyd, a teisennau a gwin a chwrw a diod oer a bu sgwrsio mawr am Gymru ac Ariannin a'r daith.
Nos Sul 20fed Hydref ymunodd grwp arall efo Elvey Macdonald ac roedd Cyngerdd efo Cor Seion a Chor Llanuwchllyn yn canu yn y Ganolfan. AR Y diwedd daeth y ddau gor at ei gilydd i ganu Hafan Gobaith, ac roedd pawb yn clapio. Ar ddiwedd y noson roedd Swper efo Empanadas a Pitsas a chawsom hwyl fawr iawn yn canu.
Aethon nhw i Drevelin dydd Llyn a Llyn Futalaufquen a Pharc Cenedlaethol Los Alerces dydd Mawrth. Dydd Mercher gawson nhw ddewis ac aeth rhai ar y tren bach, ac eraill am dro i fyny Mynydd y Groes.
Nos Fercher aethon ni i La Chacra i gael Asado,a sgwrsio a roedd llawer o hwyl
Roedden nhw'n nabod llawer ohonnon ni achos buon ni yng Nghymru yn 2000.Roedden ni 'n ganu dawnsio dawnsfeydd Arfiannin efo harmonica a dangoson nhw inni sut i ddawnsio a mynd drwy'r brws. Roedd llawer o win a chwrw ac amser bendigedig.

**Pablo Gutierrez, Nelli Roberts, Susi Rowlands,**

## Eisteddfod Y Wladfa 2002

Dydd Iau Hydref 24 wnes i fynd i Drelew i'r Eisteddfod efo'r teulu, ngwr, wyres Matias a Federico a 'merch Marina. Dydd Gwener, dechreuodd yr Eisteddfod. Mi ganes i yng Nghor y Felin dan Irvin Evans, y gân oedd "Y Teithiwr Blin". R oeddwn i'n teimlo'n nerfus ar y llwyfan!
Dydd Sadwrn mi wrandawes i ar Gôr Seion, côr y Gaiman, Ensemble Coral Patagonia a chôr Prifysgol Buenos Aires pan on nhw'n canu "Pebyll yr Arglwydd".Mi ganon ni hefyd – ond dim lwc! Wedi imi gymryd rhan mi fwynheues i'r Eisteddfod.
Roedd hi'n ddiddorol iawn. Hoffes i'r brif Seremoni a'r Adroddiad Sbaeneg am Bedd fy Nhad.
Gysgon ni yng Ngwesty Rivadavia, roeddwn i efo fy mam yng nghyfraith. Roedd hi'n benwythnos ardderchog! Mi ddes i adre am ddeg o'r gloch nos Sul ac es i i'r gwely wedi blino'n lan!

Dolly Miguens de Cornelio

## LLONGYFARCHIADAU

I bawb o Ysgol Gymraeg yr Andes yn Esquel a Threvelin am gystadlu ag ennill gwobrau am sgrifennu llythyron, E-bostiau, Posteri, erthyglau a Phenillion yn Eisteddfod y Wladfa y llynedd.

**Beth am gystadlu eleni?**

### Neges E-bost

Cafodd **Jessica Jones o Derevelin** ail wobr am yr E-bost yma

**Helo sumae? Dwi'n hapus iawn achos dw i'n 21 oed rwan ac yn dod i Gymru i ddysgu Cymraeg! Dw i isio rhoi gwahoddiad i chi yma.**
**Dw i'n byw yn Nhrevelin ar fferm Tref fach ydy hi yng Nghwm Hyfryd, Dan ni'n eich gwahodd i fwynhau *El Malacara* yn y gogledd ble mae bedd ceffyl John Daniel Evans *Cartref Taid,* a'r hen Felin sy'n *Amgueddfa hanesyddol...*Wedyn ewch i weld cofgolofn Y Mimosa ble dan ni'n dathlu Gwyl y Glaniad.**
**Hefyd ewch i ymweld a rhaeadrau Nant y Fall a Melin Flawd Nant Fach yn y De.**
**Yn y dwyrain mae Capel Bethel a'r ty Capel ble mae Ysgol Gymraeg yr Andes ar y Ffordd allan i Argae Futaleufu.**
**Yn y gorllewin mae Hen Ysgol 18.**
**Ewch i gael te yn Nhy Te Nain Maggie.**
**Byddwch chi wedi blino – cysgwch yn Hostel Casaverde, y ty gwyrdd.**
**Croeso i bawb!**

Mae Jessica yng Nghymru rwan ac yn anfon E-Bost go iawn aton ni.

, . , . , . , . , . , . , . , . , . , . , . , .

**Enillodd Dosbarth Gloywi Esquel Gwobr Iaf am Benillion i Blant.**

**ANIFEILIAID**

**A welsoch chi bry genwair**
**Yn cuddio'i phen mewn pridd,**
**I ddianc rhag bysgotwr**
**Sy'n chwilio amdani o hyd?**

**A welsoch chi ysgyfarnog**
**Yn rhedeg dros y cae**
**I guddio rhag yr heliwr**
**A'i gŵn sy'n agosau?**

**A welsoch chi wanaco'n**
**Carlamu dros y paitrh**
**I chwilio am fwyd a diod**
**Fel gwnaeth o lawer gwaith?**

**A welsoch chi y Condor**
**Yn hedfan dros y tir**
**Gan ymestyn ei adenydd**
**Gosgeiddig? Naddo wir!**

**Y Fo sy piau'r awyr**
**A chopa'r Andes gwyn.**
**Brenin yr uchelderau**
**Ddaw o byth fan hyn!**

☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹☹

## Cystadleuthau 2003

Cyfres o Gerddi –LLANW A THRAI
Soned - OLOIN
Penillion Ysgafn - GWLYCHU
Penillion ar gyfer Plant- LLIWIAU
Penillion Noson Lawen

## Eisteddfodau'r Wladfa

Y co cynta sy gen i o Eisteddfod ydy un o'r rhai ola a gynhaliwyd yn y Felin – dim ond rhyw bump oed oeddwn i ar y pryd. Eistedden ni'r plant ar y sachau blawd ac roedd na lwyfan wedi ei wneud allan o blanciau o bren wedi eu gosod ar ben sachau eraill a chynfas mawr drosto. Roedd y lle'n llawn ben a phawb yn eu dillad dydd Sul, ond mi fentrais ar y llwyfan a ches wobr – arian mewn cwdyn bach oedd yn crogi o gwmpas ngwddf a theimlwn yn falch iawn ohonno.
Yn y Salon Central y cynhaliwyd y Steddfod ar ol hynny, a wir i chi, y tro cyntaf doedd y lle ddim wedi ei gwblhau, ond roedd yna lwyfan go iawn ac roedd o wedi ei drimio efo baneri lliwgar – ddim blodau fel sydd heddiw. Cyn yr Eisteddfod roedd pawb o'r ffermydd yn dod at ei gilydd i baratoi ac ymarfer y partion a'r corau ac roedd gwahanol rai yn ein dysgu yn yr Ysgol Gan. Cerddorion wrth reddf oedd y rhan fwyaf yn y Cwm, ond roedden nhw'n darllen y Sol-ffa a'r HenOdiant ac yn ein trwytho yn y Modilator. Cofiaf un o'r enw Owen Williams – o'r Hen Wlad, oedd wedi cael hyfforddiant mewn Cerddoriaeth ac roedd raid inni wneud fel oedd o'n dweud neu mi fyddai'n gwylltio.

Meinir Evans

## Cystadleuthau 2003

Casgliad o 3-6 Hanesion lleol
Stori Fer yn cynnwys y geiriau *wel,wel, dyna ryfedd*
Hunangofiant -*CYLLELL FARA*
Stori Addas i Blant (FEL SALI MALI)
**AR GYFER PAWB**
Braslun o hanes -*CARTREF*
Erthygl ar gyfer -*Y DRAVOD/LLAIS YR ANDES*
Cyfweliad ar dap efo rhywun o genhedlaeth wahanol
**AR GYFER DYSGWYR**
Poster yn hysbysebu Digwyddiad Cyngerdd

## COR SEION yn yr EISTEDDFOD

♫

**Dydd Iau Hydref 24 dechreuon ni o Esquel am 7.30 i'r Gaiman ar y bws efo Cor Seion a ffrindiau.**
**Roedd hi'n daith hapus dros ben ac roedden ni'n bwyta teisennau bach, brechdannau, empanadas a milanessas a ffrwythau ag yfed gwin coch.**
**Aroson ni yn y Gymnasio am dair noson, ac roedd hwyl fawr.**
**Wnaethon ni gystadlu ar Gor Meibion a chael ail Wobr, ac ail hefyd i'r Cor Merched a chanu Emyn, ac roedden ni'n drydydd efo'r Gan Werin a'r can Negroaidd.**
**Dim ots os wnaethon ni ddim ennill -gawson ni amser da, ac ar ol y Steddfod aethon ni i gael bwyd a dawnsio yn y Davarn LaS.**
**Dydd Sul roedd na ganu eto - yn y Gymanfa Ganu yn Capel Bethel wedyn yn yr Asado yn yr Ysgol.**
**Ar y ffordd adre roedden ni'n chwarae Steddfod ar y Bws ac yn gneud Seremoni i Ricardo, Reuben, Guiardo a Pablo oedd yn Aelodau newydd yn y Cor.**
**Diolch i Elda am ddysgu ni!**

**Pablo Guitierrez**

## ♫♫♫ MENTRO ♫♫♫


Am y tro cyntaf yn Eisteddfod Trelew mentrodd y Merched o Gor Esquel gael rhai eraill o'r Fro atyn nhw i gystadlu ar y Cor Merched.
Da iawn chi am roi perfformiad teimladwy iawn o Garol Catrin.
Hefyd, peth newydd iawn yma ydy Canu Penillion a doedd na neb o'r Oedolion O Drevelin erioed wedi Canu Cerdd Dant o'r blaen, ac er bod parti o Lanuwchllyn wedi eu curo, roedden nhw wedi cyflawni camp!
**Hoffech chi wneud Parti eto?**

## Ymwelwyr

Roedd hi'n braf cael croesawu llawer o Gymru yn ystod y Flwyddyn, daeth un Grwp gyda Elvey McDonald, un arall gyda Cathrin Williams, a nifer o unigolion, parau a grwpiau o ffrindiau oedd ar Wyliau yn y Wladfa neu yn teithio De America!
Roedd eraill yn dod yma i hel gwybodaeth, am yr iaith a'r bobl a'u hafiechydon, ac yn falch o ddeall bod yr iaith yn ffynnu a'r ffordd o fyw yn dal ymlaen.
Dieithr oedd y rhan fwyaf ohonnyn nhwond , roedd hi'n fendigedig gweld hen wynebau cyfarwydd!
Brysiwch yn ol un ag oll!







# Mae rhywbeth bach yn poeni pawb

**Mae'r Dosbarthiadau Gloywi Iaith wedi bod yn sgrifennu am bethau hoffen nhw eu newid.**

## HELYNT YR AUR

Rydym yn byw mewn lle tlws iawn wrth droed yr Andes ger Ardal y Llynoedd a gwelir eira ar gopa'r mynyddoedd drwy'r flwyddyn. ac mae'r awyr yn las ac yn bur pob amser. Ar y llethrau tyf coed o wahanol fathau sydd yn dennu anifeiliaid fel y guanaco, ysgyfarnogod. llwynogod coch a llwyd ag adar fel y carancho, bandurrias, fflamigo a'r condor i fyw yn hapus yn eu cysgod. Mae bywyd yma'n dawel a hamddenol ac mae'r ardal yn derbyn miloedd o dwristiaid bob tymor –haf a gaeaf, i ryfeddu at y bywyd gwyllt a blasu gweithgareddau fel cerdded, beicio, marchogaeth, dringo, rafftio, pysgota, canwio a hwylio, a sgio. Yn y mynyddoedd hyn mae yna niferoedd o fwynau a bu llawer o chwilio am aur gan rai o'r Cymry cyntaf mewn ffordd syml - heb lawer o lwyddiant. Ond eleni mae na broblem fawr wedi dod ar ein pennau. Mae'r llywodraeth wedi rhoi caniatad i gwmni Meridian Gold o Ganada sydd wedi bod yn archwilio ers tua tair blynedd i gloddio am aur ar y brig ym Mynydd Esquel tua 7cilomedr o'r dre. Ceisiodd llywydd Chubut, Maer y dre a'r Cwmni berswadio'r cyhoedd drwy ddweud y byddai'n ddatblygiad pwysig iawn i'r dre. Dosbarthodd y Cwmni bamphled o ansawdd uchel efo propoganda. Dangoswyd hysbysebion ar y teledu hefyd efo pobl o'r dre oedd yn dweud ba mor neis fyddai'r project hwn. Roedd popeth o'u hochr nhw yn dangos faint o bres oedd gyda nhw - ond dim gwybodaeth fanwl.

Byddan nhw'n defnyddio proses newydd i wahannu'r mwyn o'r graig gan ddefnyddio CYANIDE!! Gwnaeth hyn i bobl y dre anesmwytho gan byddai'n

Tachwedd roedd cyfarfodydd wedi eu trefnu i ymgyrchu yn erbyn mwyngloddio.Yno roedden nhw'n penderfynnu gweithgareddau o flaen llaw-e.e.cyfarfod efo'r maer neu aelodau eraill o'r llywodraeth i gyflwyno cynllun o ddeddf yn erbyn defnyddio cyanide i fwyngloddio. Dechreuwyd efo posteri'n dweud yn syml *No a la Mina*- slogan arbennig o dda i esbonio'n syth eu bod nhw yn erbyn y mwyngloddio ac rhoddwyd arwydd wedi ei wneud allan o gerrig ar y mynydd fel bod pawb o'r dre yn ei weld!

Gwnaeth Daearegwr o Ogledd America, o'r enw Robert Moran brofion i'r dwr a siaradodd ar y teledu a'r radio am y posibilrwydd y byddai cyflenwad dwr y dre yn cael ei lygru achos bod y pwll mor agos ¡ Datblygwyd negeseuon i ddangos y broblem e.e. poster efo llun *Chimango* ar un ochr a llun o'r ardal heb ddim byd ar yr ochr arall, a'r geiriau'n dweud *Heb Bwll - Efo Pwll, TI sy'n dewis.*

Dyma'r tro cyntaf yn hanes yr ardal dawel, hamddenol y gwelwyd pawb yn poeni ac yn dangos eu bod nhw'n ddim yn cytuno efo'r project ag yn cymryd rhan o gyfrifoldeb.

Penderfynnodd y siopwyr a'r Wasg gefnogi'r ymgyrch gyda phosteri yn ffenestri eu siopau a'r papurau newydd. I ddechrau doedd neb eisiau iddyn nhw ddefnyddio cyanide ond ar ol cael mwy o wybodaeth doedd neb eisiau 'r project gwbwl!

Bob dydd Mawrth cafwyd protestiadau ar y stryd gyda Banner Genedlaethol fawr yn arwain y protestwyr efo brawddeg olaf yr anthem Genedlaetholarni. Llwyddwyd cael mwy a mwy bob wythnos ond roedd unigolion

dangos llawer o ddychymyg. Roedd rhai yn cario sgerbydau o bysgod neu bobl a thlysau aur yn hongian arnyn nhw, neu benglogau wedi eu lliwio'n aur. Llwyddodd y pwyllgor yn erbyn i gael Refferendwm ar dydd Sul 23ain o Fawrth a'r safiad NO ennillodd gyda 80%. Dydd Sadwrn wedyn gwnaeth y garfan a orchfygodd orymdeithio at fynedfa'r mwynglawdd i atal mwy o weithgaredd gorchmynodd llywodraeth y Dalaith i'r cwmni stopio'r gwaith am y tro ac mae pawb yn wyliadwrus beth fydd yn digwydd. Mae gobaith bydd y Cynllun wedi cael ei stopio unwaith ag am byth!

**Christine Jones, Gladys Jones,**
**Nelda Williams Romina Azzolini.**
**Lizzie Jones de Lloyd, Joyce Powell,**

Fwynau/mwynau *–minerales*
Cyanide *-sianuro* Arwydd-*señal*
Daearegwr *–geologo* Cyfarfodydd-*reuniones*
Mwyngloddio *–mina* Ymgyrchu-*protesta*
Gyfrifoldeb-*reponsabilidad* Cyflenwad Dwr – *reserva de aqua*
Negeseuon *–mensajes*
Rhyfeddu-*extrañar*
Gopa/copa – *pico del cerro*
Llethrau - *laderas*
Dennu-*llama*
Hamddenol-*vida tranquila* Carfan-*caravana de protesta*
Gorchfygu-*ganadores*
Gorymdeithio-*marchar*
Gwyliadwrus -*vigilante*
Gweithgareddau-*actividades* Llwyddiant- *logro*
Perswadio-*persuadir*
Cyhoedd-*la comunidad*
Datblygiad Pwysig – *actos importantes*
Hysbysebion - *propaganda*
Llygredd-
Amgylchedd-*envirionment*

# Rhowch inni

Roedd gan y Cymry Cynta enwau godidog am lefydd ar y daith dros y Paith o Drelew i Drevelin a hoffen ni eu gweld unwaith eto ar arwyddion – neu byddan nhw'n cael eu anghofio.

| | |
|---|---|
| Y Gaiman | Pant y Mwg |
| Lle Cul | Y Graig Goch |
| Dolavon | Aber Gyrains |
| Ceg y Ffos | Dyffryn Oer |
| Hafn yr Eglwys | Afon Persi |
| Hirdaith Edwin | Nant Wen |
| Dolhy Plu | Nant Bagillt |
| Hafn yr Aur | Llyn Bagillt |
| Fffos Jac Lewis | Llyn Brychan |
| Dyffryn y Merthyron | Mynydd Llwyd |
| Hafn y Glo | Mynydd Tomos |
| Rocky Trip | Pentre Sydyn |
| Eglwys Bordon | Gorsedd y Cwmwl |
| Black Eye | Cwm Hyfryd |
| Dyffryn yr Allorau | Bryn Calfaria |
| Rhyd yr Indiaid | Pen y Bryn |
| Pant y Gwaed | Bod Eglur |
| Pant y Ffwdan | Bryn Amlwg |
| Afon Fawr | Nant Fach |
| Parc Unig | Craig Lot |

# Yr HEN ENWAU

| | |
|---|---|
| Bryn y Ffynnon | Nant y Fall |
| Nant y Pysgod | Nant Chileno |

Buon ni'n holi'r Gweleidyddion yn ystod y 10 mlynedd dwaetha,os byddai'n bosib rhoi arwyddion efo'r enwau hyn, ond chymeron nhw ddim llawer o sylw! Pwy arall fyddai'n hoffi gweld yr enwau yma eto'? Oes yna fwy?

Beth am fynd ati i hel arian i gael arwyddion newydd, a gofyn am bobl i'w noddi nhw. A rhoi gwybodaeth ar daflen yn Gymraeg, Sbaeneg, Saesneg ag Iaith yr Indiaid Brodol yn egluro tarddiad yr enwau, a'r pellter o Drelew a Threvelin.

Ymunwch yn Yr Ymgyrch!

Llwyddodd Cymdeithas yr Iaith yn Nghymru gael arwyddion Cymraeg .

**Cysylltwch a Theulu Charlie Green**
mgreen@ciudad.com.ar / 02945 480236

# Dosbarthiadau Pell

*Mae hi'n dda clywed am rai eraill sy'n Dysgu Cymraeg yn yr Ariannin, ac anfonodd Valeri James de Irianni Adroddiad aton ni.*

## Dysgu Cymraeg ym Muenos Aires

**2001**

Ar gais rhai unigolion a diddordeb yn yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, fe drefnwyd Cwrs Cymraeg i Ddechreuwyr yn y Residentes Chubutenses, dan nawdd y Cyrddau Cymraeg Musol.

Bu'r dosbarthiadau yn cael eu cynnal o fis Awst hyd ddiwedd mis Tachwedd dan ofal yr athro, y Bon Walter Ariel Brooks. Ymhen y pedwar mis roedd cyfeillgarwch hyfryd wedi tyfu'n raddol rhwng y dysgwyr, ar wahan i ddysgu a camau cyntaf yn yr iaith Geltaidd hyfryd hon.

O dro i dro, daeth ymwelwyr i edrych amdanom a'n cefnogi, rhai ohonynt oedd yn athrawon oedd ar eu taith yn ol i Gymru ar ol cyfnod o weithio yn y Wladfa. Diolch yn fawr am eu cyfraniad.

**2002**

Erbyn hyn roedd ein hathro Ariel wedi mynd i Gymru. Llongyfarchiadau iddo ef a'i wraig Geraldine am eu llwyddiant ym myd Addysg.

Beth am y dosbarthiadau Cymraeg heb Ariel?


Wel, roedd yn rhaid wynebu'r sefyllfa a mentro ymlaen. Felly, bu ail gydio yn y gwaith yn ewyllysgar. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd, yn arbennig i'r fonesig Norma Hughes am ei chymorth parod a pharhaol. Mae Norma yn Wreiddiol o'r Andes.

Brian Williams ydw i. Dw i'n ddauddegwyth oed. Dwi'n byw yn Belgrano, Buenos Aires ond ces i fy ngeni yn Paraña yn Nhlaith Entr Rios. Mae gen i dair chwaer a dau frawd. Roedd Taid o'r Wladfa a daeth nhad o' Wladfa. Newyddiadurwr dw i ond dw i ddim yn gweithio heddiw. Dw i'n hoffi Dysgu Cymraeg. Myfyriwr ydw i a dwi'n astudio Ieithyddiaeth yn y Brifysgol ym Muenos Aires. Dw i eisiau astudio Ieithyddiaeth ac Astudiaethau Cektaidd am hynny dwi'n mynd i'r Almaen.

Marta Hughes ydw i.
Ces fy ngeni yn Esquel, ond dwi'n byw ym Muenos Aires. Roedd mam yn byw yn Esquel – Ada Saunders oedd hi.Tegid Hughes oedd fy nhad. Roedd Taid Evan Lloyd Hughes wedi ei eni yn y Bala, Gogledd Cymru. Mae gen i un merch ac un bachgen. Dwi'n licio dysgu Cymraeg er mwyn siarad efo Morfudd Slaymaker sydd yn byw yn Llanbed ac yn perthyn imi..

Dilynnwch **Llais yr Andes** ac fe gewch fwy o'n hanes yn y dyfodol!

**Dyma lun o'r Dosbarth Newydd sy wedi dechrau Dysgu Cymraeg yn Lago Puelo. Da iawn chi am weithio'n galed. A Diolch i Margaritta ag Alan Green am helpu efo nhw!**



# Fy amser yng Nghymru

Helo! Romina ydw i a ydw i´n dod o Esquel. Es i i Gymru i ddysgu Cymraeg yn Llambed am ddau fis. Roedd y profiad yn wych a roedd rhaid i ni gweithio yn galed ofnadwy; wel, mae pob un ohonnon ni sy wedi bod yna yn gwybod yn iawn am beth dw i´n siarad!

Cyn orffen y cwrs cwrddais i a merch sy´n gweithio efo cwmni gwirfoddolwyr ac ar ol siarad a cheisio trefnu rhywbeth rhwng Cymru ac Ariannin gwahoddodd fi i wneud y gwaith. Ar y pryd wnes i feddwl: “synniad arderchog! Bydda i'n cael pedwar mis i ymarfer yr iaith a chael cyfle i wybod sut mae gwasanaethau cymdeithasol a sefyllfaon sy´n berthnasol i´n ngwaith fel cyfreithwraig yn gweithio”, Felly, wnes i gytuno.

Symudais i´r gogledd, i Gaernarfon, a dechreuais weithio fel gwirfoddolwraig ar yr 8fed o Fis Medi. Do´n i ddim yn deall dim byd oedden nhw'n ddweud achos bod nhw´n siarad “cofi!! A doeddyn nhw ddim yn deall y ffordd ro´n i´n siarad chwaith!!!!! Ac i helpu i ddeall, penderfynais i wneud cwrs arall ym Mangor.

Wnes i weithio pob dydd o naw tan pump efo cwmni o'r enw “GISDA” (Grwp Ieuenctud Sengl Digartref Arfon ydy´r ystyr). Ro´n i´n arfer cysgu i Mewn dwy waith yr wythnos yn yr hostel ble mae' wyth o bobl ifanc yn byw, i edrych ar eu hol nhw.

Mae dau project arall gyda´r cwmni – un i, famau sengl a'r llall i baratoi ‘r bobl ifanc i symud ymlaen (ar ol byw yn y hostel).

R'on i mor hapus! Roedd y pobl ifanc yn nysgu i i siarad Cymraeg “go iawn” a sut mae popeth yn gweithio!! Roeddyn nhw´n mor amyneddgar! Mor annwyl! Nhw oedd fy nheulu am flwyddyn!

Pan ddaeth y pedwerydd mis i ben wnaethon nhw ofyn i fi aros am fwy o amser gyda nhw ag arhosais i am flwyddyn yn y diwedd!.

Yn y mis cyntaf nes i fyw mewn Cartref Hen Bobl ym Methesda. Roedd rhaid i mi deithio pob dydd ar y bws….roedd cymryd dwy awr felly wnes i symud wedyn i un arall ym Mhenygroes. Roedd y lle yn ofnadwy...llawer o swn yn y nos ac ogla pis ym mhob man! Felly wnes i benderfynu symud i fyw efo gwahanol ffrindiau- rhai yn ystod yr wythnos a'r lleill dros y Sul. Ond ar ol tipyn….mi ges i sioc!!! Ffendiodd GISDA fflat i fi yng Nghaernarfon efo popeth o´n i angen...oergell, stof, gwely, dillad gwely,

Mi ges i gyfle i wneud cyrsiau efo bopl ifanc a phob fath o anghenion arbennig gyda nhw. I dweud y gwir, dw i erioed wedi cael c´maint o gefnogaith a chymorth fel ces i gan GISDA.

Ro´n i mewn cysylltiad efo´r bobl o´r Wladfa ac efo ffrindiau o Gymru ro´n i´n nabod cyn mynd, ac aethon ni i bob cyngerdd a gwyl dros yr haf!Er enghraifft i Sesiwn Fawr, a Dan y Draig, Cawson ni hwyl ofnadwy.

Roedd hi'n bwysig iawn gwybod bod rhywyn o´r Wladfa yna ar gael i ni -rhywyn oedd yn meddwl amdanon ni bob amser. Ie, dw i´n siarad am Glory - mae hi fel mam i bawb, yn edrych ar ein ol ni, ac yn werth y byd!!!!

Ydych chi eisiau gwybod Un peth do´n i ddim yn licio am Gymru. beth? Y TYWYDD!!!! Gormod o law i fi! Roedd hi´n wlyb bob amser..ja ja. Do´n i ddim yn gallu dod i arfer efo tywydd fel hyn.

Y peth olaf hoffwn i dweud, diolch yn fawr iawn i bawb sy´n gweithio'n galed i helpu ni gael profiad mor wych, a phob un sy'n cadw ‘r iaith Gymraeg yn fyw.

**Romina Azzolini**

**Dychwelodd Romina ddiwedd 2002 ac ers Mawrth mae hi'n gweithio'n galed fel Tiwtor efo'r Plant, a'r Arddegau a'r Dechreuwyr yn Ysgol Gymraeg yr Andes yn Esquel.**
**Da iawn ti am ddod yn ol a helpu.**



Mi gwrddes i a Merch Fach Ddel.......dyna oedd hanes Federico Brozzi a hyfryd oedd



## Hanes Alan Green

*Pryd aethoch chi i Gymru?*
O Fehefin 2002 hyd Chwefror 2003.

*Lle fuoch chi?*
Yn y Cwrs yn Llanbed am ddau fis, yna yng Ngharmel ger Caernarfon a Phenmaenmawr Ar y Glannau yn y Gogledd.

*Be wnaethoch chi yno?*
0n i'n gweithio ar fferm i ddechrau- gyrru'r tractor ac edrych ar ol y defaid a'r buchod a mynd a nhw i'r farchnad bob wythnos i Fryncir neu Gaerwen. Oedd o'n waith caled, ac roedd gynnon nhw lai o beiriannau, a DIM ceffylau!

*Fuoch chi rywle cyffrous?*
Es i i Lunden i Rali Fawr i brotestio yn erbyn bwriad y Llywodraeth i wneud i ffwrdd a Hela Llwynogod. Roedd na hannermiliwn o bobl yno o bob rhan o Brydain.

*Ble arall wnaethoch chi weithio?*
Ffoniodd Monica Jones i ddeud bod bwyty Newydd yn agor ym Mhenmaenmawr - *Restaurant Patagonia* a bod nhw eisiau rhywun i helpu yno.

*Be oeddech chi'n neud?*
Yn y pnawn o'n i'n paratoi a choginio'r bwyd yn barod, ac yn gweini yn y nos, a ches gwrdd a llawer o bobl fu yma a ffrindiau o'r Wladfa.

*Pa fath o fwyd oedd gynnon nhw?*
Bwydydd Traddodiadol o Ariannin – Cig ar y Parilla,Empanadas, Milanessas a.y.y.b.
Y MWYAF Poblogaidd oedd Milanessa a Neopolitana, a Ffrois a Jam Llaeth.

*Oedd y lle yn gneud chi gael hiraeth ?*
Odd gynnon nhw luniau o'r Cwm a'r ardal a'r Tiwlips, a thipyn o hanes Sefydlu'r Wladfa.

*Ewch chi'n ol rywdro?*
Gwna, siwr, rywdro – i ymweld, ond ro'n i'n

# Croeso Adre Ana Clara

Braf oedd cael Noson yn y Ty Capel i Groesawu Ana Clara Cantero Simms yn ol ar Fehefin 26ain. Dyma be ddwedodd hi!

**Dwi wedi bod yng Nghymru am ddwy flynedd. Pan gyrhaeddais i wlad y Gan y peth cyntaf a sylwais oedd gwlad mor werdd ydy hi ac mae'r bobl yn gwenu ar bawb ar y strydoedd!**
**Mi wnes i gwrs Cymraeg yn Llambed am wyth wsnos ac roedd yn ardderchog. Roedd safon y cwrs yn dda iawn av roedd y Tiwtoriaid yn barod i helpu pob tro. Roedd llawer o bobl o dramor hefyd ac yno mi gwrddes i a bachgen o**
**Lundain o'r enw Dafydd a chwympon ni mewn cariad a'n gilydd!**
**Wedyn ym mis Medi mi es i fyw i brifddinas Cymru – Caerddydd. Dydy Cardydd ddim rhy fawr, ond mae hi´´n fywiog iawn! Yno, roeddwn i'n byw gyda theulu bach ac r'on i'n dilyn Cwrs Cymraeg. Sefais fy Arholiad Safon A- Cymraeg fel Ail Iaith i Oedolion –ym mis Mehefin. Roedd yn arholiad hir ac anodd ac mi ges i farc uwch drwy lwc!**
**Ym mis Mehefin mi wnaeth Dafydd a mi briodi a chawson ni barti neis iawn gyda llawer o ffrindiau. Roeddwn i'n feichiog, felly roedd bola enfawr gyda fi a ches i drafferth pan brynais i ffrog briodas! Ym mis Medi ganwyd RUARAIDH GRUFFYDD CATERO WARREN (Rwri Bach)**

## Ble roeddech chi ?

Roedd hi'n braf iawn ac es i i Esquel i siopa efo'r teulu yn y prynhawn. Roedd hi'n fendigedig. Mi welon ni lawer o siopau a mi brynon ni factura a dillad newydd.
Daethon ni'n ol i Drevelin am saith o'r gloch. Roedd hi'n brysur iawn yng nghanol y dre wrth y Plaza, roedd llawer o bobl yn gwrando ar Conjuncto de Folklores o Buenos Aires ac yn gweld nhw'n dawnsio ac actio a perfformio cerddoriaeth. Roedden nhw'n Ardderchog. Roedden ni yno tan ddeg o'r gloch!

**Ronald Eibion Davies**

Mi wnaethon ni fynd i Capel Ebenezer, Edryd a fi am saith o'r gloch. Mi wnes i ganu'r organ i bump neu chwe emyn – roedd y bobl wedi gofyn am emynau hyfryd.
Enw'r pregethwr oedd Pedro Boretski o Eglwys Bedyddwyr Esquel ac roedd o wedi pregethu yn ddiddorol efo neges am y newyddion yn y byd allan o Lyfr Timotheus.

**Maggie Ericsson Jones**

Ti'n gwybod be sy'n CŴL?

Rhaglen JAM LLAETH!!

Ti'n gwybod be sy DDIM yn CŴL?

Gorfod disgwyl tan Nos Sadwrn!
Am 8.00 o'r gloch,
F.M. Alpina

## Dydd Sul Tachwedd y Trydydd?

Mi es i i'r Salon Central yn Nhrevelin i ddathlu Noson Lawen Ysgol Adagio. Roedd yna lawer o bobol o Drevelin ag Esquel, Ffrindiau a theuluoedd y plant sy'n dysgu yn yr Ysgol. Tra'r roedd y bobl yn eistedd a chwrdd a ffrindiau eraill, roedd grwp o dri athro yn canu yn y gornel, yna chwaraeodd grwp arall yr Anthem Genedlaethol ar y piano a'r ffidil. Fel arfer ,mae'r plant yn swnllyd iawn, ond r'on i'n synnu achos roedd pawb yn ddistaw, ac yn gwrando ar y miwsig.
Dechreuodd y noson efo'r Cor Plant oedd a lleisiau bendigedig, wedyn chwaraeon nhw'r ffliwt, gitar, ffidial a'r piano.
Wnaeth bawb glapio pan swniodd Milos Seyda 13 oed 'Para Elisa', sy'n anodd iawn.
Allan yn y sgwar, roedd na lawer o bobl fel pob dydd Sul. Sbiodd rhai ohonnyn nhw i weld beth oedd yn digwydd, ac wedyn wnaethon nhw aros i fwynhau'r cyngerdd.
Cor Adagio - lle dw i'n canu- oedd yn gorffen y cyngerdd, ond pan roedden ni'n mynd i ganu, dechreuodd swn ofnadwy tu allan ----tuf,tuf,tu tuf,...A doedden ni yn gallu canu o gwbl.
Beth oedd yn digwydd?
Roedd Cyngor Trevelin wedi gwahodd Midachi, grwp enwog iawn o Buenos Aires i roi sioe tu allan. Roedd rhaid i ni ofyn iddyn nhw stopio am bu
m munud, a wnaethon ni ganu tair can yn gyflym cyn mynd yn ol adre!

**Bibiana Portuges**

Newyddion, Hanesion, Chwedlau,
Storiau, Hanes Cymru
Dipyn Bach o Bopeth
ac wrth gwrs –
Llawer iawn o

♫ GERDDORIAETH ♫

# ARWYR

Milos dw i. Myfyriwr dw i. Dw i'n byw yn Trevelin . Dw i'n dod o Buenos Aires. Dw i'n mynd i'r *Escuela Molino Trevelin.*. Dw i'n dysgu Cymraeg. Mae gwallt brown gyda fi. Mae llygaid brown gyda fi. Mae trwyn bach gyda fi.

Dw i'n hoffi Mark Williams, Chwaraewr Snwcer ydy o, mae o'n byw yn Pentre Cwm ger Glyn Ebwy,. Mae o'n dod o Gymru. Mae o'n mynd i'r Clwb. . Mae gwallt brown gyda fo. Mae llygaid glas gyda fo. Mae trwyn bach gyda fo. Mae o'n enwog, llwyddiannus, ardderchog a cyfoethog.

Fy Arwres i ydy JEMIMA NICHOLAS. Roedd hi'n byw yn Abergwaun yng Nghymru yn 1797.
Doedd dim ofn Milwyr Ffrainc arni hi.Roedd hi'n dal a tew a mawr a dewr a hyll.

Eileen Hughes

Martin Iwan dw i. Dwi'n hoffi Emanuel Ginabili. Mae o'n chwarae Pel-Fasged. Mae o'n dal, tenau, ifanc, cyflym. Mae o'n sgorio llawer. Mae o'n chwarae i San Antonio Spurs.

Roedd **John Daniel Evans** yn hoffi ceffylau. Roedd o'n dysgu marchogaeth efo'r Indiaid. Roedd o'n byw yn Gaiman efo gwraig a plant ond doedd dim tir da yn Gaiman. Roedd o'n chwilio am dir efo Aur ar y ceffyl Malacara efo ffrindiau. Roedd hi'n boeth iawn a sych. Roedd Indiaid o Chile yn ymosod ar John a'i ffrindiau. Roedd Malacara'n neidio dros y dorlan ond lladdwyd ei ffrindiau. Enw'r lle ydy Dyffryn y Merthyron.

# Pwy ydyn nhw?

**Mae Dosbarth pellach Trevelin wedi bod yn disgrifio Pobl Leol. Dych chi'n nabod nhw? Anfonwch at Nesta i ddeud!**

Mae hi'n ddynes neis iawn ag yn nawdeg oed, o hyd yn hapus a smart fel brenhines. A gweithgar run fath a gwenynen neu morgrugyn. Ers talwm roedd hi'n ffotograffydd wedyn roedd hi'n edrych ar ol ei chwiorydd yn y ty. Dyna garedig ydy hi!

Dach chi'n nabod rhywun sy'n byw yn yr ardal ger yr Injian Dan? Mae ei gwallt yn eitha byr a tywyll. Bach ydy ei trwyn hefyd ac mae hi'n tenau a byr. Dwi'n meddwl bod hi'n ddynes pert, cyfeillgar ,caredig a croesawus. Mae hi tua 55 blwydd oed, wedi ysgaru,efo dau o blant,un mab a un merch – oedolion ydyn nhw. Mae hi'n licio marchogaeth, a siarad a jocian. Athrawes ydy hi.

Mae hi'n dal, tenau a gosgeiddig iawn. Roedd hi'n dathlu Penblwydd yn Wythdeg chwech ar Ebrill 5ed a mwynhau parti efo nithod a ffrindiau. Dydy hi ddim yn briod ac mae gynni hi llawer o neiod a nithod sydd yn edrych ar ol hi ac yn ei hoffi yn fawr. Mae hi'n byw ar ben ei hun ar stryd San Martin. Pan oedd hi'n ifanc mi ga'th hi Gor Plant. Mae hi'n garedig efo ffrindiau.





## SOSIAL

Yn Parrrilla Ruca Laufquen Av. San Martin nos Wener Mai 30 am 8.30 o'r gloch, roedd Sosial. Roedd 28 o bobl a 4 o blant yno a 3 ymwelwyr o Gymru – Eiry Miles, athrawes y Gaiman a'i mam Gina a'i thad Gareth, roedden nhw'n siarad Sbaeneg. Roedden ni'n bwyta empanadas, canelones a flan efo bara ag afal a hufen ag yfed cwrw, diod, gwin coch a gwyn a dwr.Roedd o'n flasus iawn.

Wedyn roedd Arturo Lownes yn chwarae accordion piano ac roedd pawb yn Canu yn arbennig Alberto Williams. Roedd hi'n hwyl! Dim ond Nesta oedd yn dawnsio!

**Dolly Miguens de Cornelio, Delia Kansas Jones, Lydia Williams, Ronald Eibion Davies**

## Yn y Gegin

Ar ol blasu fy Minspeis Dolig dwaetha gofynnodd lawer ohonnoch chi am y Rysait - a dyma hi! Gorau po gyntaf ichi baratoi'r gymysgedd a'i gadw mewn jariau wedi eu sterileiddo. Bydd yn barod at Ddathlu'r Wyl.

Yn wreiddiol, allan o gig wedi ei dorri'n fan – briwgig- oedd y Minspeis, yn debyg i'r Empanadas Sawrus, yn brif fwyd y Bobl dlawd adeg y Nadolig. Ond fel y daeth bwyta Ffowlyn yn fwy poblogaidd , trodd y minspei yn fwy melys ac mae llawer yn cael paned neu lasied o sieri a minspei ar dywydd oer

.

**Cymysgedd**

250g Afal,
250g Bricyll
250g Grawnwin sych
250g Ffrwythau Sych syltanas
250g Siwgwr Muscovado
175gSuet ▯
225g Cnau Almwn neu cymysg
275ml Brandi
5 Sbeis –Sinamon, Nytmeg,Clove,
Croen wedi ei rafellu a Sudd Lemon
Croen wedi ei rafellu a Sudd 4 Oren

Torrwch y ffrwythau'n fan.
Ychwanegwch y Sudd a'r Brandi a'i droi'n drwyadl.
Cymysgwch a'i gadw mewn jariau

**Y Toes Crystyn**

625 g Blawd Plaen
450g Saim▯
1 llwy fwrdd Finag
1 WY▯
100ml Llaeth▯
*▯Yn lle y cynhwysion hyn gall Llysieuwyr a Vegan ddefnyddio **Vegetalina** a Llaeth Soya*

Ar ol ei gymysgu gadewch iddo oeri dros nos, mewn cwdyn plastig yn yr oergell.

Irwch dun pastai bach

Rholiwch y Toes Crwst ar fwrdd wedi ei orchuddio a thipyn o flawd, a thorrwch siapiau crwn i waelod a rhai llai neu siap seren i dop y minspei.

Rhowch waelod y minspei yn y tun.

Rhowch lwyaid o'r Cymysgedd ymhob un- dim gormod.

Rhowch dop ar bob un. (Neu gallwch ychwanegu siocled, eisin, past almwn neu *meringue* ar ol coginio'n agored!)

Coginiwch am chwarter awr mewn ffwrn eitha poeth.Hidlwch siwgwr eisin drostynt cyn eu gweini.

**o'r enw Cwmbran (Pontnewydd). Mae Dafydd a fi yn annog defnyddio'r Gymraeg ac yn trio siarad Iaith y Nefoedd efo Rwri, ond wrth gwrs, dwi'n dal i siarad Sbaeneg efo'r ddau ohonnyn ni.**

## Diolch yn fawr

Hoffem ddatgan ein diolch am gyfraniad gwerthfawr o ddau Lamineiddiwr a llyfrau diddorol, ddaeth oddi wrth Elen, a chasetiau a C.Dau ddaeth gan Leah Rhydderch, Fideo Ymweliad Ysgol Gyfun Glantaf gan Bob Pugh, a Fideos gan Hazel a ffrindiau yn S4C.

# Cornel y Plant

# Lliwiwch y llun



# CHWILAIR

**Chwiliwch am y Geiriau** Anfonwch at Nesta.

Dewr
Del
Hyll
Pwysig
Difyr
Annifyr
Cyflym
Cyfeillgar
Araf
Hapus
Byrr
Anhapus
Tew
Distaw
Swnllyd
Caredig
Ifanc
Cas
Blin
Tal
Tenau

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | I | F | Y | R | F | A | R | A | Ch |
| L | E | D | R | Y | F | I | N | N | A |
| M | Y | L | F | Y | C | F | A | Ll | T |
| Rh | P | W | Y | S | I | G | N | Ng | A |
| R | D | I | S | T | A | W | H | Ch | L |
| W | O | G | I | D | E | R | A | C | T |
| E | D | Y | Ll | N | W | S | P | Th | E |
| D | U | Th | W | H | A | P | U | S | N |
| N | I | L | B | Y | R | R | S | Ll | A |
| R | A | G | Ll | I | E | F | Y | C | U |

## JAM LLAETH

Jam Llaeth ydy rhaglen Dysgwyr Ysgol Gymraeg yr Andes, Trevelin.

Dan ni'n rhoi llawer o Gerddoriaeth Modern : Ysbryd Chouchen, Mega, Bryn Fon, a cherddoriaeth poblogaidd fel Dafydd Iwan a thraddodiadol fel Carreg Lafar ac yn y blaen.

Dan ni'n darllen Hanes Cymru a son am y Rhufeiniaid, y Deddfau Uno, Cymdeithas yr Iaith

Hefyd mae na newyddion, cyfweliadau, resetiau a llawer o bethau diddorol.

Felly, os dach chi yn Nhrevelin unrhyw Nos Sadwrn tua 8.00 o'r bloch, cofiwch wrando arnon ni ar FM Alpina 98.7!!

Sara Borda

## YMDDIHEURIADAU

Oherwydd problemau efo Cyfrifiaduron

## DYMUNIADAU GORAU

I Veronica Botto, Esquel, Alan Hughes gynt